

# Cynllun Strategol

2022-25

---



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner



## CYNNWYS

Cyflwyniad	2
Cylch gwaith	3
Gweledigaeth a gwerthoedd	6
Gwerthoedd	7
<hr/>	
Amcanion strategol	9
Gweithredu a galluogi	15
Adnoddau dynol	15
Cyfathrebu	15
Llywodraethiant	16
Cyllid a thechnoleg	16
<hr/>	
Adrodd ac atebolrwydd	18

# Cyflwyniad

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn sefydliad annibynnol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r ddogfen hon yn egluro cynllun strategol corfforaethol y Comisiynydd am gyfnod o dair blynedd o 2022 i 2025.

Cychwynnodd y gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn yn haf 2021. Cynhaliwyd cyfres o weithdai gyda'r Comisiynydd a'r tîm rheoli ar weledigaeth ac amcanion strategol y sefydliad am y cyfnod nesaf. Fel rhan o hynny, adolygwyd cryfderau a gwendidau y cynllun strategol blaenorol (2018-22) ac ystyriwyd cynlluniau a strategaethau nifer o gyrrff a rhanddeiliaid eraill.

Cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol gyda staff yn gynnar yn 2022 ar weledigaeth ac amcanion strategol drafft ac ymgynghorwyd gyda Phanel Cynghori'r Comisiynydd hefyd.

Mae'r cynllun hwn yn ffrwyth y trafodaethau hynny. Mae'n mynegi gweledigaeth uchelgeisiol a hir dymor swyddfa'r Comisiynydd ac yn cynnwys yr amcanion strategol a'r blaenoriaethau a fydd yn cyfrannu tuag at y weledigaeth honno. Mae hefyd yn egluro ein gwerthoedd corfforaethol a sut byddwn yn rhoi'r strategaeth ar waith ac yn adrodd ar ganlyniadau.

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r blaenoriaethau yn y cynllun hwn a byddwn yn mesur cynnydd yn rheolaidd ac yn adolygu cyrhaeddiad drwy ein hadroddiad blynyddol. Caiff cyflawniad y strategaeth ei adolygu yn ystod y flwyddyn olaf wrth i ni ddechrau paratoi ar gyfer y cynllun strategol nesaf. Fel rhan o hynny byddwn yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid wrth ddatblygu blaenoriaethau ac amcanion y dyfodol.

# Cylch gwaith

2.1 Mae'r Comisiynydd yn eiriolwr dros ddefnyddwyr y Gymraeg ac yn rheoleiddiwr sydd â phwerau gorfodi. Caiff ein swyddogaethau eu gosod gan Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Prif nod y Comisiynydd wrth weithredu ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac wrth wneud hynny rhaid iddo weithio tuag at gynyddu darpariaeth gwasanaethau Cymraeg a chyfleoedd eraill i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Rhaid hefyd rhoi sylw i:

- statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- y dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod drwy safonau'r Gymraeg, a'r hawliau sy'n deillio o orfodi'r dyletswyddau hynny
- yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- yr egwyddor y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

2.2 Caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth sy'n briodol yn ei dyb ef er mwyn hybu a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hynny'n cynnwys gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau canlynol:

- hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg
- annog arferion gorau o ran defnyddio'r Gymraeg
- cadw'r gyfraith sy'n ymwneud â'r Gymraeg o dan arolygiaeth
- llunio a chyhoeddi adroddiadau
- gwneud gwaith ymchwil neu gomisiynu eraill i'w wneud
- gwneud gweithgareddau addysgol neu gomisiynu eraill i'w gwneud
- cyflwyno sylwadau i unrhyw berson

- gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru
- rhoi cyngor i unrhyw berson.

2.3 Mae'r Comisiynydd yn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg drwy weithio gyda busnesau ac elusennau i wella a chynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Rydym hefyd yn rhoi cyngor a gwneud argymhellion er mwyn dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi a deddfwriaeth.

2.4 Mae gan y Comisiynydd bwerau penodol i reoleiddio safonau'r Gymraeg. Gweinidogion Cymru sy'n paratoi rheoliadau safonau'r Gymraeg ac mae'n rhaid i'r rheoliadau gael eu cymeradwyo gan Senedd Cymru cyn gall y Comisiynydd osod safonau ar y sefydliadau a enwyd yn y rheoliadau. ac mae ganddo bwerau i orfodi cydymffurfiaeth gyda'r safonau hynny.

2.5 Mae gan y Comisiynydd bwerau i ymchwilio i gwynion am fethiannau i gydymffurfio â safonau a dyfarnu ar achosion. Mae Tribiwnlys y Gymraeg yn delio ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â safonau'r Gymraeg. Lle nad oes safonau mewn grym, mae'r Comisiynydd yn parhau i fonitro gweithrediad cynlluniau iaith Gymraeg rhai cyrff cyhoeddus. Gall y Comisiynydd hefyd ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

2.6 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru a chaiff gynnal ymholiad i unrhyw fater sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau.

2.7 Wrth wneud ei waith, bydd y Comisiynydd yn cydweithio gyda nifer o sefydliadau eraill er lles y Gymraeg. Mae'r Mesur yn galluogi'r Comisiynydd i weithio ar y cyd ag Ombwdsryn a Chomisiynwyr eraill ar ymchwiliadau safonau, neu ymchwiliadau eraill.

2.8 Mae strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru, sy'n gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i ddyblu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, yn cyfeirio at waith a rôl y Comisiynydd yn y strategaeth. Yn benodol;

- cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ar draws pob sector
- cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg

2.9 Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi ei gytuno rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru sy'n gytundeb fframwaith i amlinellu'r berthynas waith rhwng y ddau sefydliad. Golyga hynny bod ffiniau clir a dealltwriaeth ynghylch ariannu, rheoleiddio, dylanwadu ar bolisi a chydweithio.

# Gweledigaeth a gwerthoedd

3.1 Mae gan y Comisiynydd weledigaeth uchelgeisiol, tymor hir i sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg ymhob agwedd o'u bywyd ac ymhob rhan o Gymru. Ein gweledigaeth yw:

## **Cymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg**

3.2 Gweinidogion Cymru sy'n gosod polisi ar gyfer y Gymraeg yng Nghymru ac maent wedi ymrwymo i arwain newidiadau pellgyrhaeddol fel bod mwy o bobl yn dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae gan y Llywodraeth strategaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg a thargedau i greu miliwn o siaradwyr ac i gynyddu canran y boblogaeth sy'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd i 20% erbyn 2050.

3.3 Mae'n bwysig bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg heb rwystr ymhob agwedd o'u bywyd, boed yn gymdeithasol, yn y gweithle neu wrth ddefnyddio gwasanaethau. Drwy waith hybu a hwyluso a thrwy osod a gorfodi dyletswyddau, mae'r Comisiynydd yn gweithio i gynyddu defnyddio'r Gymraeg a sicrhau bod pobl yn gallu byw eu bywyd yn Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

3.4 Mae gweledigaeth y Comisiynydd yn eang ac yn hirdymor. Bydd yn defnyddio ei bwerau a'i swyddogaethau yn ystod oes y cynllun hwn i gymryd camau cadarnhaol tuag ar wireddu'r weledigaeth. Mae'r amcanion a'r blaenoriaethau sydd yn y cynllun yn egluro sut y byddwn yn mynd ati i wneud hynny.

3.5 Mae statws cyfreithiol y Gymraeg wedi cryfhau dros y ddegawd diwethaf. Ceir mwy o ddisgwyliadau ar sefydliadau i ystyried, cynllunio ac i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae canfyddiad cyffredinol ymysg siaradwyr Cymraeg bod ansawdd gwasanaethau Cymraeg yn gwella mewn rhai meysydd, ond mae ffordd bell i fynd i wireddu ein gweledigaeth. Trwy weithredu safonau'r Gymraeg, mae sefydliadau'n trin y Gymraeg yn well, ond nid yw'r holl sectorau a enwir ym Mesur y Gymraeg wedi dod o dan y drefn safonau eto ac mae'n bwysig parhau i ehangu dylanwad y Mesur.

3.6 Ni all siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith ymhob agwedd o'u bywydau ar hyn o bryd, ac ar y cyfan mae'n haws derbyn gwasanaethau ysgrifenedig na gwasanaethau llafar, wyneb yn wyneb. Amlygodd adroddiad sicrwydd "Camu Ymlaen"<sup>1</sup>, y Comisiynydd a gyhoeddwyd yn 2021, y bwlch sy'n bodoli rhwng sefydliadau cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau Cymraeg yn dda, a'r rhai sydd heb drefniadau digonol.

---

<sup>1</sup> Camu Ymlaen: Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2020-21

3.7 Mae'r sefyllfa yn fwy anghyson i bobl sy'n ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â busnesau ac elusennau. Er bod enghreifftiau cynyddol o arfer da ac arloesi ymysg rhai o'r mudiadau hyn heb unrhyw orfodaeth statudol, mae'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yn ddarniog ac anghyflawn ar y cyfan. Mae gweithgareddau hybu i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn bwysig ac mae angen i sefydliadau o bob sector sicrhau fod y gwasanaethau Cymraeg sy'n cael eu darparu yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol ac adnoddau'n cael eu neilltuo i ganiatáu hynny.

3.8 Mae dadansoddiad manwl o sefyllfa'r Gymraeg sydd wedi cyfrannu tuag at y weledigaeth a'r amcanion yn y cynllun hwn yn adroddiad 5 mlynedd "Sefyllfa'r Gymraeg 2016-20" a gyhoeddwyd yn 2021<sup>2</sup>.

3.9 Bydd y Comisiynydd yn defnyddio ei bwerau a'i swyddogaethau, a chydweithio gyda sefydliadau a mudiadau eraill er mwyn cau'r bwlch rhwng y sefyllfa gyfredol a'r weledigaeth. Mae'r amcanion a'r blaenoriaethau yn yr adran nesaf yn egluro sut y byddwn yn mynd ati i wneud hynny yn ystod y tair blynedd nesaf.

## Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd craidd yn egluro'r modd y mae swyddfa'r Comisiynydd yn ymddwyn wrth ymdrin â staff, y cyhoedd, a rhanddeiliaid eraill. Dyma fydd yn angori'r ffordd y bydd y Comisiynydd a'i swyddogion yn mynd ati i wneud eu gwaith bob dydd.

Mae **parchu** pawb y byddwn yn gweithio â hwy yn ganolog i bopeth a wnawn.

Mae bod yn **agored** ac **ymddiried** yn ein gilydd yn sylfaen i'r diwylliant rydym yn ei arddel yn y gweithle.

Rydym yn ymdrin â phob agwedd o'n gwaith gyda **thegwch**, **gonestrwydd** a **chysondeb**.

---

<sup>2</sup> Sefyllfa'r Gymraeg 2016-20 Adroddiad 5 Mlynedd Comisiynydd y Gymraeg



Mae **cydweithio** gydag eraill mewn ffordd briodol a blaengar yn bwysig i ni.

- 3.10 Ynghyd â'n gwerthoedd corfforaethol, mae gan y Comisiynydd God Ymddygiad sy'n seiliedig ar saith egwyddor y Pwyllgor Nolan ar safonau mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r egwyddorion hyn o anhunanoldeb, cywirdeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth yn rhan o ddiwylliant y sefydliad ac yn sail i'n holl bolisiau a'n gweithdrefnau mewnol.
- 3.11 Mae gan y Comisiynydd Gynllun Cydraddoldeb. Bydd ein gwaith wedi ei seilio ar ein hawydd i ddeall ac ymateb i anghenion y gymuned. Byddwn yn cymryd y cyfle i hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth rhwng pobl Cymru a'i gilydd, cynnal a chyfrannu at waith yn ymwneud ag amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol yn y byd, a galluogi mwy o bobl i werthfawrogi diwylliant Cymru yn ei chyfanrwydd.

# Amcanion strategol

4.1 Mae'r Comisiynydd wedi adnabod pedwar amcan strategol lefel uchel ar gyfer cyfnod y cynllun hwn ac er mwyn cyfrannu tuag at y datganiad gweledigaeth:

Amcan Strategol 1	<b>Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg</b>
Amcan Strategol 2	<b>Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth</b>
Amcan Strategol 3	<b>Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol</b>
Amcan Strategol 4	<b>Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector</b>

4.2 Caiff yr amcanion hyn eu rhoi ar waith drwy gyfres o flaenoriaethau penodol dros y tair blynedd nesaf. Y blaenoriaethau hyn fydd sail y gweithgareddau a'r prosiectau a fydd yn ein cynllun gweithredol blyneddol.

4.3 Bydd y Comisiynydd yn mesur cyflawniad y blaenoriaethau drwy gyfres o ddangosyddion fel bod modd asesu llwyddiant gweithrediad y cynllun strategol. Byddwn hefyd yn adrodd ar gyflawniad y blaenoriaethau yn ein hadroddiad blyneddol er mwyn sicrhau ein bod yn atebol ac yn dryloyw.

<b>AMCAN 1 Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg</b>	
Blaenoriaethau 2022 – 2025	Mesur llwyddiant
1.1 Ymgysylltu gyda'r cyhoedd gan wrando ac ystyried yr hyn gaiff ei fynegi yn deg a chytbwys. Gweithredu ar ran pobl, boed yn weithwyr neu aelodau'r cyhoedd, os ydynt yn wynebu rhwystrau wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Cymryd bob cyfle i estyn allan at gynulleidfa ehangach.	Gwybodaeth eang am flaenoriaethau, profiadau a rhwystrau i ddefnyddwyr y Gymraeg a fydd yn sail i gyfeiriad gwaith y Comisiynydd.
1.2 Codi ymwybyddiaeth am yr hawliau cyfreithiol sydd gan ddefnyddwyr y Gymraeg gan gymryd pob cyfle i estyn allan at gynulleidfa ehangach.	Defnyddwyr yn gynyddol ymwybodol o'u hawliau ac yn troi at y Comisiynydd am gymorth, heb unrhyw rwystr
1.3 Gweithredu trefn gwyno effeithiol sy'n atal methiannau rhag parhau neu gael eu hail adrodd	Sicrhau cydymffurfiaeth a bod methiannau ddim yn parhau nac yn cael eu hailadrodd
1.4 Addysgu a rhannu gwybodaeth am ganlyniadau arwyddocaol gwaith achos gyda chynulleidfa oedd targed o bob math.	Pobol a sefydliadau yn ymwybodol o benderfyniadau arwyddocaol yn deillio o waith y Comisiynydd a'r goblygiadau iddynt i'r dyfodol ac yn eu galluogi i newid arferion mewn ymateb
1.5 Cynnal darnau gwaith ymatebol sy'n ceisio darganfod a oes gan rai grwpiau o ddefnyddwyr y Gymraeg fwy o anawsterau i arfer eu hawliau oherwydd eu hamgylchiadau a gwneud argymhellion i'w cefnogi.	Sefydliadau yn gweithredu argymhellion ac yn gwneud newidiadau ystyrion i sicrhau nad oes unrhyw rwystrau ac nad yw defnyddwyr dan anfantais wrth arfer eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg
1.6 Gosod safonau ar gyrrff mewn modd amserol unwaith i safonau gael eu cyflwyno gan y Senedd. O fewn oes y cynllun hwn ac yn unol â Chytundeb Rhyngweithio Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, disgwylir gwneud hynny ar gyfer y sefydliadau canlynol; trafndiaeth gyhoeddus, rheoleiddwyr yn y sector iechyd, cyrff cyhoeddus sy'n dal y tu allan i'r gyfundrefn safonau ar hyn o bryd a chwmnïau dŵr.	Rhagor o hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg drwy fod wedi gosod safonau ar yr holl sefydliadau perthnasol

<b>AMCAN 2 Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth</b>	
Blaenoriaethau 2022-25	Mesur llwyddiant
2.1 Cynllunio adroddiad 5-mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg (2021–25) a fydd yn cynnwys dadansoddiad o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ac asesiad o'u goblygiadau, i'w gyhoeddi yn 2026.	Dadansoddiad o'r Cyfrifiad a strwythur yr adroddiad nesaf yn ei le.
2.2 Meithrin dealltwriaeth o waith comisiynwyr iaith ac asiantaethau eraill ledled y byd a rhoi llwyfan i arferion llwyddiannus o Gymru	Gwybodaeth gynhwysfawr a chyfredol am waith rhyngwladol a chymhwyso arferion llwyddiannus yng ngwaith y Comisiynydd.
2.3 Craffu ar ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y Gymraeg, gan gynnwys <ul style="list-style-type: none"> <li>- Bil Amaeth</li> <li>- Bil Addysg Drydyddol</li> <li>- Bil Addysg Gymraeg</li> </ul>	Gwelliannau i ddeddfwriaeth yn dilyn ymyrraeth y Comisiynydd.
2.4 Dylanwadu ar bolisi sy'n effeithio ar y Gymraeg gan roi sylw penodol i: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Addysg</li> <li>- Iechyd a Gofal</li> <li>- Tai a chynllunio</li> </ul>	Gwelliannau i bolisiau yn dilyn ymyrraeth y Comisiynydd.
2.5 Cydweithio a rhannu gwybodaeth â phartneriaid perthnasol i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth a chyfrannu yn adeiladol at drafodaethau yn ymwneud â meysydd sy'n effeithio ar y Gymraeg	Enghreifftiau pendant o gydweithio yn arwain at welliannau.
2.6 Ymchwilio ac adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg a siaradwyr Cymraeg mewn meysydd polisi er mwyn gosod sail tystiolaeth ar gyfer safbwyntiau'r Comisiynydd	Gwneuthurwyr polisi yn gweithredu ar argymhellion y Comisiynydd

<b>AMCAN 3 Cynnal a chynyddu cydymffurfiaeth sefydliadau gyda'u dyletswyddau statudol</b>	
Blaenoriaethau 2022-25	Mesur llwyddiant
3.1 Gweithredu strategaeth rheoleiddio gwirioneddol rhagweithiol	Gwybodaeth gynhwysfawr am berfformiad sefydliadau gan defnyddio ystod eang o ymyraethau i ymateb i wahanol sefyllfaoedd i sicrhau gwelliant mewn perfformiad lle bo angen hynny
3.2 Cymryd camau rheoleiddio priodol i drawsnewid perfformiad sefydliadau yn y meysydd allweddol hynny sy'n parhau i brofi'n broblematic: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau a recriwtio</li> <li>• Safonau llunio polisi</li> </ul>	<p>Cynnydd yn yr ystyriaeth a roddir i'r angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swyddi gwag/newydd yn arwain at lwyddiant i recriwtio i'r rolau hynny.</p> <p>Cynnydd yn nealltwriaeth sefydliadau o ofynion y safonau llunio polisi, a chynnydd yn yr ystyriaeth briodol a roddir i effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.</p>
3.3 Sefydliadau i wneud mwy i hyrwyddo'r cyfleoedd maent yn eu darparu i ddefnyddio'r Gymraeg mewn dau faes penodedig: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Polisiâu defnydd mewnol</li> <li>• Defnydd gwasanaethau</li> </ul>	<p>Cyrff sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg yn gweithredu polisiâu ar ddefnydd o'r Gymraeg yn fewnol, a chynnydd yn y cyfleoedd i gyflogai ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith drwy rannu arferion llwyddiannus.</p> <p>Sefydliadau'n gallu tystio bod cynnydd wedi bod yn y defnydd o'u gwasanaethau Cymraeg.</p>
3.4 Sicrhau bod sefydliadau'n cydweithio gyda'i gilydd ac yn arloesi er mwyn ymateb yn gadarnhaol i'r gofynion sydd wedi eu gosod arnynt drwy gyfrwng cyngor y Comisiynydd, ac arferion effeithiol sydd wedi eu casglu a'u hyrwyddo.	Tystiolaeth fod cynnydd yn y sefydliadau sydd wedi llwyddo i drosglwyddo arferion effeithiol i'w sefyllfaoedd penodol nhw.

3.5 Trawsnewid perfformiad a gallu Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau gwasanaethau'r Gwasanaeth lechyd Gwladol i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg, drwy wella ansawdd cydymffurfiaeth cyrff â gofynion a osodir arnynt drwy safon 110 a safon 110A.

Bydd bob corff sydd yn ddarostyngedig i'r safon wedi paratoi cynllun erbyn diwedd 2023.

<b>AMCAN 4 Cynyddu defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector</b>	
Blaenoriaethau 2022-25	Canlyniad / Ilwyddiant
4.1 Hwyluso defnyddio'r Gymraeg gyda busnesau ac elusennau drwy gynnal hyfforddiant, darparu canllawiau a rhannu arfer dda.	Cymorth y Comisiynydd yn cael ei ddefnyddio ac yn arwain at newid.
4.2 Mwy o ymrwymadau i ddefnyddio'r Gymraeg gan fusnesau ac elusennau. Targedu'r sectorau canlynol yn benodol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archfarchnadoedd</li> <li>• Darparwyr iechyd a gofal</li> <li>• Elusennau cenedlaethol</li> <li>• Banciau</li> </ul>	Cymeradwyo 40 o gynlluniau datblygu yn flynyddol.
4.3 Cydweithio gyda chyrff ariannu a rhwydweithiau er mwyn dylanwadu ar ragor o fusnesau ac elusennau i ddefnyddio'r Gymraeg.	Meithrin cysylltiadau a chydweithio yn arwain at fwy o ymrwymadau i ddefnyddio'r Gymraeg gan fusnesau ac elusennau.
4.4 Darparu cyngor am ffurfiau safonol enwau lleoedd Cymru gan roi amlygrwydd iddynt drwy ail lansio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol Cymru ar ei newydd wedd yn 2024. Datblygu ein gallu i ddarparu cyngor am ffurfiau enwau tirweddol a chyhoeddi canllawiau safoni i gefnogi'r gwaith	Rhestr o enwau lleoedd safonol wedi ei ail lansio a chofnodion cyflawn yn y cefndir. Argymhellion clir ynghylch sut i warchod a hyrwyddo enwau Cymru.

# Gweithredu a galluogi

5.1 Mae cyflawni amcanion strategol y Comisiynydd yn ddibynnol ar weithredu a gweinyddu effeithiol. Rhaid sicrhau safon uchel o reolaeth ariannol, fframwaith lywodraethu briodol a diwylliant corfforaethol sy'n cefnogi lles a datblygiad y gweithlu. Mae cyfathrebu gwybodaeth a hyrwyddo pob elfen o waith y Comisiynydd hefyd yn greiddiol i gyflawniad ein hamcanion. Er mwyn cefnogi gwaith y Comisiynydd a'r cynlluniau sydd gennym, byddwn yn rhoi pwyslais ar y themâu canlynol:

## Adnoddau dynol

5.2 Ein pobl yw ein hadnodd pwysicaf ac mae cyfraniad gweithlu gwybodus, sy'n llawn cymhelliant yn hanfodol i gyflawni ein hamcanion. Mae'r Comisiynydd yn ymrwmo i greu diwylliant sefydliadol sy'n hybu datblygiad, meithrin talent a photensial, mewn awyrgylch lle mae parch, ymddiriedaeth, cefnogaeth a theimlad o gymuned glos yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud.

5.3 I gyflawni hyn byddwn yn blaenoriaethu:

- Llywodraethiant cryf trwy sicrhau bod ein polisiau, gweithdrefnau a'n systemau yn ymgorffori arfer da, tegwch a chydymffurfiaeth gyda'n gofynion statudol.
- Creu diwylliant cefnogol sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch, drwy gynnig ystod o ymyraethau i greu amgylchedd gwaith sy'n cefnogi iechyd a lles ein swyddogion.
- Gyrru gwelliant wrth fabwysiadu proses o ddatblygu perfformiad sy'n seiliedig ar sgysiau agored, dwy ffordd ar draws y flwyddyn, a sicrhau bod bob unigolyn yn cael y cyfle i ddatblygu a ffynnu yn eu swyddi.

## Cyfathrebu

5.4 Bydd angen cyfathrebu'n effeithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol. Bydd angen sicrhau ein bod yn rhannu negeseuon perthnasol er mwyn cyrraedd ac ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd amrywiol a rhanddeiliaid ym mhob rhan o Gymru a thu hwnt.

5.5 Byddwn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

- Datblygu Strategaeth Gyfathrebu newydd – er mwyn adnabod prif negeseuon y sefydliad ac egluro sut y byddwn yn eu teilwra a'u rhannu'n eang ar draws plattformau gwahanol i gyrraedd ystod eang o gynulleidfaoedd. Byddwn yn adolygu ein dulliau presennol o gyfathrebu ac yn ystyried sut y gallwn gynyddu ein traweffaith a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.



- Datblygu brand cryf a gweledol - Byddwn yn parhau i ddatblygu ein brand er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n gweledigaeth fel sefydliad.
- Byddwn yn parhau â'r gwaith o ddatblygu'r wefan i gynnwys gwybodaeth sy'n glir, yn gywir, ac yn gyfredol. Byddwn yn datblygu ffyrdd newydd o sicrhau bod ymwelwyr â'r wefan yn cael gwybodaeth berthnasol yn gyflym ac yn effeithiol.
- Rhedeg ymgyrchoedd cenedlaethol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg - Byddwn yn rhedeg ymgyrchoedd amrywiol, fel ffordd o gyfleu negeseuon allweddol, ac er mwyn ymgysylltu â'n partneriaid, ein rhanddeiliaid, a'n cynulleidfaoedd.

## Llywodraethiant

5.6 Byddwn yn gweithredu trefniadau llywodraethu priodol er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion a dyletswyddau cyfreithiol fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, diogelu data, gofynion amgylcheddol a rhyddid gwybodaeth.

5.7 Yn ogystal â Phanel Cynghori a benodir gan Weinidogion Cymru, mae gennym Bwyllgor Archwilio a Risg ac rydym wedi penodi archwilwyr mewnol i roi trosolwg annibynnol o weithrediad y sefydliad. Fel penodiad cyhoeddus mae'r Comisiynydd yn ymrwymo i'r safon uchaf o weinyddiaeth fewnol. Mae swyddog wedi ei benodi yn Rheolwr Risg ac mae'r Comisiynydd yn hyrwyddo diwylliant o gyfrifoldeb ac atebolrwydd priodol drwy'r sefydliad.

5.8 Byddwn yn:

- Mesur ein cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) drwy fonitro ac adolygu mewnol, a thrwy unrhyw gwynion wedi'u cadarnhau gan y Comisiynydd Gwybodaeth.
- Cynnal ac adolygu ein cofrestr risg yn rheolaidd.
- Cynnal cyfarfodydd chwarterol y Panel Cynghori a'r Pwyllgor Archwilio a Risg i gynnig her adeiladol a chynghori'r Comisiynydd.
- Adrodd ar ein perfformiad i Bwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg y Senedd yn flynyddol.

5.9 Mae gan y Comisiynydd Gynllun Cydraddoldeb Strategol a byddwn yn parhau i weithredu'r cynllun yn ein trefniadau mewnol. Er nad yw'r Comisiynydd yn destun i ddyletswyddau llawn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ei nod yw ymgorffori'r egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy yn y ffordd y mae'n rhedeg y sefydliad, ac i gyfrannu tuag at saith Nod Llesiant Cymru.

## Cyllid a thechnoleg

5.10 Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym drwy reolaeth ariannol gref a phrosesau adrodd a monitro rheolaidd.

Byddwn yn sicrhau bod ein cyfrifon blynyddol yn cydymffurfio â gofynion y Trysorlys, safonau cyfrifyddu ac unrhyw gyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn sicrhau cynllunio ariannol priodol ac atebolrwydd drwy lunio cyllideb fanwl yn flynyddol a byddwn yn sicrhau bod ein gofynion ariannol yn eglur i Lywodraeth Cymru drwy baratoi amcangyfrif o incwm a gwariant y Comisiynydd ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

5.11 Byddwn yn sicrhau bod ein isadeiledd technoleg gwybodaeth ac ystadau yn addas ac yn gyfredol. Bydd gennym drefniadau cadarn ar waith i ddiogelu rhag bygythiadau seibr a byddwn yn gweithio tuag at achrediad diogelwch seibr yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun strategol. Byddwn yn parhau i brofi ein systemau ac i weithio gyda rhanddeiliaid a rhannu arfer da.

# Adrodd ac atebolrwydd

6.1 Caiff y cynllun strategol hwn ei roi ar waith drwy gynlluniau gweithredol blynyddol a fydd yn cynnwys prosiectau a gweithgareddau penodol a fydd yn cyfrannu tuag at ein hamcanion strategol a'n blaenoriaethau tair blynedd.

6.2 Mae gennym gyfres o fesuryddion a fydd yn ein galluogi i fesur ac adrodd ar gyflawniad y cynllun hwn ac adolygu ei lwyddiant ar ddiwedd y tair blynedd. Bydd y tîm rheoli yn arwain y gwaith o graffu ar weithrediad y cynllun ac yn ei adolygu'n barhaus. Byddwn yn sicrhau bod cyswllt clir ac amlwg rhwng ein cynllun strategol a'n cynllun gweithredol a bydd ein hamcanion strategol yn cael eu hystyried wrth bennu cyllidebau blynyddol.

6.3 Byddwn yn adrodd ar ein gweithgareddau a'n gwariant drwy adroddiad blynyddol statudol a chyfrifon blynyddol a fydd wedi eu harchwilio gan Archwilio Cymru. Caiff yr adroddiad a'r cyfrifon eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd a'u gosod gerbron Senedd Cymru.



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

0345 6033 221

[post@cyg-wlc.cymru](mailto:post@cyg-wlc.cymru)

[@ComyGymraeg](https://twitter.com/ComyGymraeg)

[comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)